# Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 14 Gorffennaf 2005 |
| **Amser:** | 2.00 - 4.30 |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| **Teitl:** | **Blaenraglen Waith Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth EDT2 10-05 (p6)** |

**Blaenraglen Waith Derfynol Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**

Mae Blaenraglen Waith Derfynol Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ynghlwm. Fe'i trafodwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mai ac ystyriwyd sylwadau'r Aelodau.

Dosbarthwyd y flaenraglen waith i Gadeiryddion y Pwyllgorau a’r Cabinet gan ofyn iddynt roi sylwadau erbyn 24 Mehefin. Ni chafwyd unrhyw sylwadau ac mae'r Flaenraglen Waith yn awr wedi'i gosod yn ffurfiol.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Gorffennaf 2005

## Y PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD A THRAFNIDIAETH

## BLAENRAGLEN WAITH

Mai 2005 - Rhagfyr 2006

## Cyflwyniad

1. Mae'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn un o saith Pwyllgor pwnc y Cynulliad Cenedlaethol. Nodir cyfrifoldebau’r pwyllgorau pwnc yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol, y gwelir rhan ohonynt yn Atodiad A.

## Dyletswyddau'r Pwyllgor

2. Mae cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn seiliedig ar bortffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, sy'n cynnwys:

- Arloesi a mentergarwch;
- Polisi diwydiannol a chymorth i fusnesau;
- Mewnfuddsoddiad, hyrwyddo cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol;
- Trafnidiaeth;
- Ynni;
- Twristiaeth;
- Cyfrifoldeb strategol am gydgysylltu TGCh;
- Cronfeydd Strwythurol.

## Blaenraglen Waith

3. Mae gwaith y Pwyllgor yn perthyn yn fras i ddau gategori – craffu ar waith Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, a chyfrannu at y broses o ddatblygu polisïau drwy gynnal adolygiadau polisi a thrwy gadw golwg ar faterion sy'n codi ac ymateb iddynt. Yn ymarferol, mae'r eitemau ar yr agenda yn aml yn cynnwys agweddau ar y ddau.

4. Ochr yn ochr â'r rhain, mae gan y Pwyllgor nifer o swyddogaethau parhaus:

- cael adroddiadau rheolaidd gan Weinidog y Cynulliad a'u hystyried;

- adolygiadau blynyddol o berfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru, a chynghori ar eu datblygiad strategol;

- ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad;

- ystyried is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth yr UE yn ôl y galw.

### A) Craffu

5. Bydd y Pwyllgor yn cael adroddiadau ar faterion cyfredol a phwysig gan Weinidog y Cynulliad ym mhob un o'i gyfarfodydd, a bydd yn trafod yr adroddiadau hynny.

6. Bydd yn achub ar y cyfleoedd hyn i graffu'n rheolaidd ar waith y Gweinidog, ei bolisïau, a'r modd y cânt eu gweithredu.

7. Bydd yn cael adroddiadau rheolaidd gan y Gweinidog a Chadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni ar hynt y gwahanol raglenni Ewropeaidd a bydd yn cadw golwg fanwl ar berfformiad y rhaglenni.

8. Bydd yn craffu ar unrhyw drefniadau newydd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006, ynghyd â goblygiadau canlyniadau'r adolygiad o'r Canllawiau ar Gymorth Rhanbarthol.

9. Bydd yn ystyried y broses o uno'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad â'r Llywodraeth, gan dalu sylw arbennig i'w heffaith ar fusnes ac ar y staff y mae eu swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried perfformiad Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru a bydd am ofalu bod tryloywder o ran y broses uno a'r newidiadau strwythurol yn yr Adran Datblygu Economaidd a Thrafnidaeth a ddaw yn sgil y broses honno. Bydd y Pwyllgor hefyd yn craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â system statudol o gofrestru llety gwyliau, ynghyd â'r trefniadau i weithredu'r system honno.

10. Bydd yn cadw golwg gyffredinol ar ddeddfwriaeth sylfaenol, is-ddeddfwriaeth a deddfwriaeth Ewropeaidd o fewn ei faes cyfrifoldeb ac yn craffu'n fanylach ar eitemau y mae'n eu hystyried yn briodol.

11. Bydd yn ystyried cynigion y Gweinidog ar gyfer adolygu Cymru'n Ennill a bydd yn dadansoddi'r camau a gymerwyd i wireddu targedau'r strategaeth.

12. Bydd yn parhau i gadw llygad ar hynt Mesur Trafnidiaeth (Cymru). Bydd y Pwyllgor yn craffu ar unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth arfaethedig ac ar y camau i'w gweithredu os daw i rym. Bydd hefyd yn craffu ar y trefniadau i roi ar waith gymalau Cymru yn y Ddeddf Rheilffyrdd, ynghyd â'r trefniadau newydd ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a fydd yn deillio o'r Ddeddf.

## B) Datblygu Polisi

13. Bydd y Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiad o Bolisi Gwyddoniaeth yng Nghymru.

14. Bydd yn parhau i gynghori'r Gweinidog ar ddatblygu'r meysydd polisi a nodir yn strategaeth Cymru'n Ennill.

15. Bydd yn cadw llygad ar hynt strategaeth Blaenau'r Cymoedd – ‘Blaenau'r Cymoedd ar y Blaen’.

16. Bydd yn ystyried ymateb y Gweinidog i'r argymhellion a wnaed yn Adolygiad y Pwyllgor o Anweithgarwch Economaidd a bydd yn ystyried sut y bydd yn monitro'r camau i roi'r argymhellion hynny ar waith.

17. Bydd y Pwyllgor yn parhau i gadw golwg gyffredinol ar faterion eraill sy'n codi mewn perthynas ag argymhellion adolygiadau blaenorol y Pwyllgor, ac yn cynghori arnynt yn ôl y galw. Yn arbennig, bydd yn cadw llygad ar y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i weithredu'r argymhellion y gwnaeth eu mabwysiadu o adolygiadau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd o ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.

18 Bydd yn monitro hynt adolygiad y Gweinidog o bolisi trafnidiaeth ac yn pwyso a mesur yn fanylach y camau a gymerir mewn perthynas â chysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd ar draws Cymru.

19. Bydd yn monitro hynt Strategaeth y Diwydiannau Creadigol a'r camau i roi'r gronfa ar waith. Bydd hefyd yn cadw llygad ar Strategaeth Band Eang Cymru a datblygiadau cyffredinol yn y maes.

20. Bydd yn cynghori ar flaenraglenni Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ac ar flaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer swyddogaethau cyfredol y cyrff hyn ar ôl iddynt gael eu huno â Llywodraeth Cynulliad Cymru.

21. Bydd yn edrych yn fanylach ar effaith a datblygiad y diwydiant awyrofod yng Nghymru.

22. Bydd yn cadw golwg gyffredinol ar hynt polisïau'r UE, yn enwedig ar effaith ehangu a chydlyniant.

23. Bydd yn cadw golwg ar ddatblygiad economi Cymru, ac yn cynghori arno, gan ymateb i faterion brys neu faterion pwysig yn ôl y galw.

24. Bydd yn cynghori ar faterion cyllidebol ac ariannol, deddfwriaeth, penodiadau a materion eraill yn ôl y galw, a hynny yn unol â'r Rheolau Sefydlog.

25. Bydd yn ceisio cynnal o leiaf ddau gyfarfod ffurfiol y flwyddyn y tu allan i Gaerdydd.

Cyfrifoldebau Statudol

26. Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn gosod dyletswyddau penodol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a bydd y canlynol yn llywio gwaith y Pwyllgor:

- Cyfle Cyfartal - cynhelir cyfarfodydd y Pwyllgor yn gyhoeddus ac yn achlysurol y tu allan i adeilad y Cynulliad Cenedlaethol er mwyn gwneud ei fusnes yn fwy hygyrch i bobl ledled Cymru. Bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gyfle cyfartal wrth fynd i'r afael â'r holl faterion yn ei bortffolio.

- Datblygu Cynaliadwy - yn ei drafodaethau, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar yr angen i gydbwyso twf economaidd a chymdeithasol gyda chadwraeth yr amgylchedd, drwy ddatblygu cynaliadwy. Bydd argymhellion ei adolygiadau polisi yn adlewyrchu'r egwyddor hon.

## Atodiad A

CYFRIFOLDEBAU’R PWYLLGORAU PWNC

1. Mae rheolau sefydlog 9.7 a 9.8 yn nodi cyfrifoldebau’r Pwyllgorau Pwnc:

9.7 Bydd pob pwyllgor pwnc

i. yn cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae'r Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;
ii. yn cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu; a
iii. yn cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat

9.8 O fewn y meysydd perthnasol, bydd pob pwyllgor pwnc hefyd,

i. yn cynghori ar ddeddfwriaeth arfaethedig a fydd yn effeithio ar Gymru, gan gynnwys cyflawni ei swyddogaethau o dan Reol Sefydlog 22;
ii. yn rhoi cyngor i Gabinet y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â dyrannu cyllideb y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 19;
iii. yn cyflawni ei swyddogaeth o dan reol sefydlog 21 (cwynion);
iv. yn cyflawni unrhyw swyddogaethau a neilltuir iddo o dan y Cod Ymarfer ar Weithdrefn Penodiadau Cyhoeddus a wneir gan y Cynulliad o dan Reol Sefydlog 20; a
v. yn ystyried materion y bydd y Cynulliad yn eu cyfeirio ato o fewn ei feysydd."

2. dan Reol Sefydlog 9.9, rhaid bod gan bwyllgorau pwnc raglen waith dreigl a fydd yn cwmpasu cyfnodau o 12 mis o leiaf.

-